**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Chwefror 1af 2021**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:**

Eric Merfyn Jones (Cadeirydd), Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Gareth T M Jones, Huw G. Wyn Jones, Dilwyn Lloyd, Edgar Wyn Owen, Gareth A Roberts ac Owain Williams.

**Swyddogion:**

Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Cara Owen (Rheolwr Cynllunio), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Gareth Roberts (Uwch Beiriannydd Rheolaeth Datblygu), Idwal Williams (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Dewi Roberts (Aelod Lleol)

**Ymddiheuriadau:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gareth Williams (Aelod Lleol)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 1 Chwefror 2021 |

**PWNC**

Eitem 5.1: Eglwys Santes Mair Lôn Yr Eglwys, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6AR

Datblygiad preswyl gan gynnwys 6 annedd, mynedfa a gwaith cysylltiedig

**PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais**

**Rhesymau:**

1. **Mae'r ddarpariaeth dai ym Morfa Nefyn eisoes yn sylweddol uwch na'r ddarpariaeth a glustnodwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac felly ni chredir bod y cynnig yn cwrdd gyda'r anghenion lleol cydnabyddedig am dai. O ganlyniad fe fuasai'r datblygiad yn arwain at orddarpariaeth tai marchnad agored yn y gymuned yn groes i ofynion polisi TAI 4 y CDLl a'r strategaeth aneddleoedd a'i cynhwysir ym Mholisi PS 17.**

2. **Nid oes rheswm digonol wedi ei gynnwys fel rhan o'r cais pam na ellid darparu uned fforddiadwy ar y safle ac felly mae'r cais yn groes i ofynion Polisi TAI 15 y CDLl.**

3. **Oherwydd culni'r ffordd fynediad at y safle a'r effaith niweidiol ar lif a hwylustod y drafnidiaeth breifat a gwasanaethol a fydd yn ei defnyddio, mae tebygrwydd bydd y datblygiad yn cael effeithiau niweidiol ar fwynderau trigolion lleol a defnyddwyr Lôn yr Eglwys, gan gynnwys y rheini sy'n mynychu Ysgol Morfa Nefyn, ac felly mae'r bwriad yn groes i ofynion polisi PCYFF 2 y CDLl fel y mae'n ymwneud ag amddiffyn mwynderau defnyddwyr tir cyfagos i safleoedd datblygu.**

4. **Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno yn y Datganiad Ieithyddol nid yw'r ACLl wedi ei argyhoeddi na fyddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn groes i ofynion polisi PS1**

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 1 Chwefror 2021 |

**PWNC**

Eitem 5.2: The Pines Care Home, Ffordd Penpaled, Criccieth, Gwynedd, LL52 0DE

Cais i estynnu'r adeilad cartref nyrsio a maes parcio ynghyd a chadarnhau lleoliad presennol uned biomas

**PENDERFYNIAD:**

**Gohirio er mwyn galluogi amser i'r gwrthwynebwyr gael cyfle i baratoi cyflwyniad fideo o'u gwrthwynebiad**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 12 |
| Yn erbyn | 1 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 1 Chwefror 2021 |

**PWNC**

Eitem 5.3 Maes Carafanau Gelliwig Farm, Botwnnog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8RG

Ymestyn tymor gwyliau y maes carafanau o 8 mis i 12 mis i fod yn agored trwy'r flwyddyn ar gyfer defnydd gwyliau

**PENDERFYNIAD: Caniatáu**

**Amodau:**

1. **Defnydd gwyliau a chadw cofrestr.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 14 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Cara Owen (Rheolwr Cynllunio) gan fod ganddi gysylltiadau personol gyda'r teulu

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 1 Chwefror 2021 |

**PWNC**

Eitem 5.4 Glyn Caravan Park Lôn Garmon, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7UL

Cais i ddiddymu amod 3 o ganiatâd cynllunio 34/64/371'C' ar gyfer safle carafanau er caniatáu defnyddio'r carafanau trwy gydol y flwyddyn

**PENDERFYNIAD: Caniatáu**

**Amodau**

1. **Defnydd gwyliau yn unig a rhaid cadw cofrestr o'r holl ddefnyddwyr.**
2. **Yr holl arwyddion mewnol ac allanol i fod yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r iaith Gymraeg.**

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.